Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Yr Athro Robin May i adael yr ASB ym mis Medi

> “Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyfan, hoffwn ddiolch i Robin am bopeth y mae wedi’i wneud dros y pum mlynedd diwethaf i gynnal hyder y cyhoedd mewn safonau bwyd. Mae wedi chwarae rhan werthfawr wrth lunio swyddogaethau gwyddoniaeth a thystiolaeth yr ASB, gan feithrin cydweithrediadau cryf ag eraill yn y llywodraeth a’r byd academaidd, ac arwain ein gwaith cyfathrebu â’r cyhoedd ar risgiau sy’n gysylltiedig â bwyd. Mae Robin hefyd wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu ein Hyb Arloesi, gan ein galluogi i ehangu ein harbenigedd i reoleiddio technolegau newydd ac arloesol yn well. Bydd colled fawr ar ei ôl, ond edrychwn ymlaen at barhau â’n gwaith gydag ef drwy ein partneriaeth ag UKHSA.”
> Yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB

> “Ar ôl mwy na phum mlynedd fel y Prif Gynghorydd Gwyddonol, byddaf yn drist iawn o fod yn ffarwelio â’r ASB. Mae wedi bod yn fraint cael gweithio mewn sefydliad sy’n cael ei arwain gan wyddoniaeth ac sydd wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch ac uniondeb system fwyd y DU.
>
> Rwy’n arbennig o falch o ymrwymiad yr ASB i wneud penderfyniadau tryloyw, yn seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd. O lywio cymhlethdodau diogelwch bwyd yn y dirwedd ar ôl yr UE i ymateb i risgiau sy’n dod i’r amlwg neu dechnolegau newydd ac arloesol, mae’r pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod hynod ddiddorol i wasanaethu fel y Prif Gynghorydd Gwyddonol.
>
> Er fy mod i’n edrych ymlaen at ymgymryd â heriau newydd yn UKHSA, byddaf bob amser yn gefnogwr cryf o genhadaeth yr ASB a’r rhan hanfodol y mae’n ei chwarae wrth geisio sicrhau bod bwyd yn ddiogel a bod safonau’n uchel i bawb.”
>
> Yr Athro Robin May

Mae'r ASB wedi lansio ymgyrch recriwtio agored i benodi olynydd parhaol yr Athro May.